**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

**Crynodeb o gofnodion y cyfarfod misol**

**Dyddiad:**

2il Ionawr, 2025

**Presennol**

Richard Williams (Cadeirydd), John Jones (Garndolbenmaen), Raymond Jones (Pentrefelin) Megan Lloyd Williams, John Till (Golan) Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Jess Williams, Iddon Edwards (Penmorfa) Gwilym Evans (Prenteg)

**Ymddiheuriadau**

Cynghorydd June Jones (Cynghorydd Cyngor Gwynedd), Enid Egginton (Garndolbenmaen), Huw Pritchard (Pentrefelin)

**Datgan Buddiant**

Gwilym Evans – Eitem 14 (Cynllunio)
Richard Williams – Eitem 14 (Cynllunio)

**Penderfyniadau**

Cyllideb a Praesept 2025/26

Cynhaliwyd Is-bwyllgor Cyllid ar y 12fed o Ragfyr, 2024 ble gyflwynodd adroddiad gan y Clerc yn dangos:

- Gwariant y Cyngor hyd at 31/12/2024
- Amcangyfrif o'r gwariant hyd at 31/03/2025
- Cyllideb drafft 2025– 2026

Adroddwyd nad oedd llawer o newid i'r gyllideb – mân newidiadau yn unig i gyfarfod ag unrhyw gynnydd blynyddol mewn pethau megis treth incwm a chostau aelodaeth ayb.

Argymhellwyd cadw arian wrth gefn ar gyfer y canlynol:

- Hysbysfwrdd newydd i Benmorfa
- Posibilrwydd o orfod prynu tir er mwyn ehangu Mynwent Bethel, Golan, yn y dyfodol.

Anfonwyd copi o'r adroddiad, cyllideb a chofnodion yr is-bwyllgor at y cyngor llawn cyn y cyfarfod misol.

Penderfyniad: Cadw'r praesept yn £18,000 am y flwyddyn 2025/2026. GE yn cynnig a MLW yn eilio a phawb yn cydweld.

Cynllunio

Rhestrau: 2/12, 9/12, 16/12, 23/12

Ceisiadau Cynllunio:

C24/1075/36/LL – Bryn 'Refail Isaf, Garndolbenmaen – Adeiladu to dros iard wartheg. Dim gwrthwynebiad.

C24/1079/44/LL - Traeth Cil-Llidiart, Prenteg - Codi silo biswail, tanc elifol o dan y ddaear a gwaith cysylltiedig. Dim gwrthwynebiad. Ni chymrodd GE ran yn y drafodaeth yma.